YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1911. [CYF. XI. RHIF 8.

AR EDYN FFYDD.

"LLAWN YW Y DDAEAR O'TH GYFOETH."

Llawn, llawn
Yw'r ddaear o Dy ddwyfol ddawn ;
Ar ddeulin, Ner, addoli wnawn :
Mae'n weddus llawenhau yn wir,
  A chwyddo moliant drwy y wlad—
Haelioni'r Tad a leinw'n tir.

Bri, bri,
O Dduw ! sydd ar Dy lwybrau di,
Yn dirion iawn i'n daear ni ;
O'n cwmpas mewn gogoniant llawn,
  Ar Dy weithredoedd oll, erioed
Dy enw roed yn dyner iawn.

Mawr, mawr
O ddydd i ddydd, o awr i awr,
Yw'th ofal am dylwythau'r llawr :
Mae canu diolch am Dy nawdd
  I galon dyn mewn llawen hwyl
Ar uchel wyl yn orchwyl hawdd.

Mwy, mwy
Na holl rasusau'r ddae'r i gyd
Yw Cariad Duw at bawb o'r byd ;
O ! f'enaid tlawd, os gwag dy nyth
  Ehed at Dduw, a chred ei air—
Cei ddogn a bair, cei ddigon byth.

DYFED.

NODION Y MIS.

PWNC mawr pwysig y mis sydd newydd derfynu, yn ddiameu, yw

Pwnc y Coroniad.

Cyffrôdd deimladau dwfn a gwresog o barch at y brenin a'i gydmares anrhydeddus o'r fath na welwyd ei gyffelyb, fe allai, erioed o'r blaen. Yr oedd oll yn ardderchog iawn er mai teimlad llawer oedd fod yr elfen filwrol yn ormodol i'r ffrynt, a mwy o gynrychiolaeth o'r grefydd swyddogol nag oedd yn dderbyniol gan rai, a mwy, yn ddiameu, nag a welir byth eto mewn cyfarfod cyffelyb. Dyna deimlad Jowett, a Horton, a Hargrove, ac Evan Jones, Caernarfon, y rhai sydd wedi traethu eu meddyliau a'u teimladau ar y pwnc. Yn nesaf at y Coroniad daw *Investiture* Tywysog Cymru i sylw, yn enwedig yn Nghymru. Dywedir na welwyd erioed fwy o frwdfrydedd gwresog nag yn Nghaernarfon. Yr oedd "Ein Tywysog ni" yn rhywbeth oedd yn apelio at bawb, tra'r oedd ieuenctid y gwr bach yn rhywbeth oedd yn cydio yn y galon. Hawdd beirniadu, a dichon fod digon o le i feirniadu; ond gallwn fyned yn mhell cyn cael dim i unfrydoli cymdeithas yn gyffelyb. Yr oedd llawer o'r pethau annymunol, yn ddiameu, yn anocheladwy, oherwydd maint y cynulliadau; ond credwn fod y mwyafrif mawr yn Nghaernarfon, Bangor, ac Aberystwyth, er gwaethaf pobpeth, yn teimlo mai da oedd iddynt fod yno.

Ni all lai na bod yn dda gan bobl pob enwad weled arwyddion

Tinc ei Grefydd

yn anerchiadau Lloyd George. Crefydd, wedi'r cwbl, yw'r peth pwysicaf a'r peth gore i'w osod wrth sylfaen cymdeithas. Uniondeb, cyfiawnder, sancteiddrwydd, parch i'r delfrydol, y cof am bethau uwchaf, gwynaf, tecaf bywyd, dyna'r pethau i sicrhau parch ac ymddiried pobl. Dyna'r nodwedd wahaniaethai Gladstone oddiwrth fwyafrif mawr gwleidyddwyr ei oes, ac a fu'n foddion i ddarbwyllo John Bright y gallai bellach, heb ofni gwyro oddiwrth egwyddorion ei grefydd, ymgymeryd a'r gwaith o helpu yn llywyddiaeth ei wlad. Crefydd yw'r egwyddor sydd wrth wraidd yr awydd yn Lloyd George i wneuthur ei ore i wasanaethu ei oes a'i genedlaeth. Gwnaeth Gladstone lawer camsyniad, yr oedd hyny yn anocheladwy, a thebyg ddigon na ddianga Lloyd George heb wneuthur camsyniadau; ond credwn mai ei amcan, y *mainspring*, tu cefn i'r oll—o hyd fydd gwneuthur rhywbeth tuag at ddyrchafu cymdeithas.

Dyma rai o eiriau y "Christian Commonwealth." Priodola gelynion eiriau Lloyd George ar grefydd i ragrith. Ond gŵyr ef beth fu dylanwad y capel bach fel *driving force* yn mywyd gore ei wlad. Yr oedd ei ddarlun o'r capel bach, a safai i fyny yn erbyn y castell, wedi ei dynu allan o fywyd fel yr oedd yn Nghymru. Gŵyr mai'r capel bach gynyrchodd farddoniaeth a dychymyg, ac a borthodd ddelfrydiaeth ei bobl. . . . Clywir llawer o feirniadu ar y capeli heddyw, ond teg yw rhoi'r ochr arall. Y mae llawer o bethau na ddichon yr eglwysi eu cyflawni; ond os gallant godi a meithrin Lloyd Georgiaid gwnant wasanaeth ardderchog i'w gwlad. Cymered y gweinidogion eu calonau yn eu dwylaw, a gwnelant a allont i ddeffroi yspryd cyfiawnder cyffredinol yn nghalonau y bobl, ac i roddi iddynt nerth ac argyhoeddiad crefyddol, a daw allan o'n heglwysi ddiwygwyr a gymerant i fyny'r gwaith gwleidyddol a chymdeithasol sydd yn eu hanes, yn ngoleuni eu delfrydau crefyddol.

Y mae'r son am ddiwygio'r

"Llyfr Gweddi Gyffredin"

wedi bod o flaen y cyhoedd am lawer iawn o flynyddau; ond hyd yn hyn y mae wedi profi yn rhy anhawdd i'w ddwyn oddiamgylch. Ni fedr neb symud yn rhwydd os mewn llyfetheiriau, a thra bydd y gadwyn aur sydd yn cysylltu'r Eglwys a'r Wladwriaeth mewn bodolaeth ni fydd rhyddid yn bosibl. Teimlir y caethiwed yn fawr gan rai, ond y mae ofn Dadgysylltiad yn gryf yn mhlith y mwyafrif. Waeth hyny na pheidio y mae cyfnewidiadau pwysig yn ymyl, ac fe wel y deng mlynedd nesaf lawer nad yw y mwyafrif, hyd yn hyn, ond braidd yn dychymygu am danynt. Cydraddoldeb yw'r ddelfryd at yr hwn yr ydys yn tynu, ac mae'r arwyddion yn amlwg iawn ein bod yn nesu ato. Y mae gan yr Eglwysi Rhyddion lawer i fod yn ddiolchgar o'i blegid, ond nid erys yn foddlawn nes cyrhaedd yr un chware teg a'i chwaer eglwys yn mhob peth.

Ymddengys i lawer o honom yn beth rhyfedd fod Anghydffurfwyr ar rai amgylchiadau mor barod i droi at yr Eglwys, a phroffesu gwisgo yn ddirwgnach y llyfetheiriau hyny y brwydrodd eu tadau, rai o honynt, hyd at waed—i gael bod yn rhydd oddiwrthynt. Sut y gallant wrandaw yn ddistaw ar Sant Athanasius yn eu dedfrydu hwy neu eu rhieni i golledigaeth dragwyddol sydd yn beth anhawdd i'w ddeall. Ond y peth yr oeddym am gyfeirio ato yn bresenol oedd yr ymgais i newid tipyn ar y

Gwasanaeth Priodas.

Fel y mae, ymrwyma'r ferch i fod yn gaethferch i'w gwr. Ymrwyma'r gwr i *garu*, ond rhaid i'r wraig yn ychwanegol at hyny

addunedu *ufuddhau.* Erbyn heddyw, yn swn y waedd am *Women's Rights*—Hawliau'r Menywod—ymddengys yr adduned yn wrthun ac yn anyoddefol. Y mae yn anhawdd deall sut y mae'r fenyw wedi dyoddef cyhyd. Y rheol rhy gyffredin heddyw yw tori ar yr adduned. Onid gwell fydd gwrthod addaw? Dylai'r telerau fod yn gyfartal i'r gwr a'r wraig, a gadael rheol cariad i benderfynu—nid amhriodol coffa, feallai, fod y gair *ufuddhau* wedi ei adael allan o'r gwasanaeth a ddefnyddir yn gyffredin yn y capelau Ymneillduol, ac yn iawn felly, neu ynte gofyner i'r fenyw.

Heretic y Rhein.

Nid yw Carl Jatho mwy yn weinidog yr Eglwys Brotestanaidd yn Germany. Y mae, trwy fwyafrif mawr, wedi ei dori i maes, wedi ei esgymuno. Medd un o'i gydweinidogion: "Y mae'r Pastor Jatho wedi ei orchfygu, *ac wedi gorchfygu.*" Ceir arwyddion ar bob tu fod buddugoliaeth yr eglwys yn un amheus iawn. Cawn dri o newydd-iaduron crefyddol y wlad yn cymeryd ei blaid. Yn Germany, megys yn y wlad hon, metha'r rhai mewn awdurdod a chadw i fyny gyda gofynion gwyddor a beirniadaeth Feiblaidd ddiweddar. Yno, fel yma, dywedir fod y capeli yn gwaghau, ond fod capel Jatho yn wastad yn orlawn er ys blynyddau. Cyhuddir ef o amheu gwirion-eddau sylfaenol crefydd; fod ei syniadau yn dywyll ac amhenodol ar bersonoliaeth Duw. Ond beth yw personoliaeth? Deil Jatho nad yw Duw ddim yn llai na'r syniad cyffredin am berson, ond ei fod yn anfeidrol fwy. Drachefn, nid ydynt yn foddlawn ar ei syniadau yn nghylch anfarwoldeb. Cred Jatho am y bywyd tragwyddol ei fod, nid yn rhywbeth sydd i ddigwydd yn y dyfodol pell yn unig, ond ei fod yn rhywbeth i ddigwydd yma, ac yn awr. Teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae. Y mae haner can mil o drigolion Cologne wedi danfon deiseb o'i blaid at y Llys Eglwysyddol, ac y mae cant o broffeswyr colegawl wedi gwneuthur yr un peth. Barna'r Proff. Eucken fod y ffrwgwd yn debyg o derfynu yn Nadgysylltiad yr Eglwys oddiwrth y Wladwriaeth. Methodd Mrs. Grundy rwystro'r môr ddyfod i fewn a'i hysgubell, a methu wna pob ymgais i rwystro ymdaith cerbyd y Blaenfynediant.

Yr oedd yn dda genym ddarllen hanes dathliad canmlwyddiant genedigaeth y Parchedig Ddr.

Lewis Edwards, M.A.

Prifathraw Coleg Methodistiaid y Bala, yn ogystal a hanes dad-orchuddiad ei gerflun. Credwn fod rhy fach o sylw yn cael ei dalu

yn Nghymru i goffadwriaeth cymwynaswyr ein cenedl. Nid oedd duwinyddiaeth Dr. Edwards yn Undodaidd, ond be waeth am hyny, yr oedd ei wasanaeth i'w oes a'i genedlaeth yn teilyngu gwneuthur o honom hyn iddo. Gwasanaethodd ei enwad yn rhagorol iawn a chredwn y bydd ei "Draethodau Llenyddol" yn cael eu darllen cyhyd ag y bydd unrhyw beth Cymraeg yn cael ei ddarllen. Dylem, fel Undodiaid, deimlo parch at ddynion da pob enwad. Ni ddylai Undodwr gredu y bydd nefoedd yn cael ei gyfyngu i'w enwad ef yn unig; bydd dynion da pob enwad yn sicr o ffeindio eu ffordd i'r nefoedd. Carwn ryddfrydigrwydd yspryd Dafis, Castell Hywel. Ebe fe—"Yr wyf yn berffaith argyhoeddedig yn fy meddwl fy hunan, y gall Dr. Priestley, ac eraill o'i blaid, fod yn Gristnogion duwiol a da; coleddaf yr un farn am John Calfin, Dr. Crisp, a'u dysgyblion. Byddai'n hyfrydwch genyf eistedd yn yr un cyfundeb a hwy, yn y gobaith gwynfydedig o gael bod yn eu cwmni byth yn y nefoedd!" Eisieu rhagor o'r yspryd hwn sydd yn mhlith yr holl enwadau.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

GAN Y PARCH. JOSEPH WOOD.

VIII.

DADBLYGIAD YN Y BEIBL—DUW.

YMAE syniad llawer o bobl am y Beibl y fath, fel y maent hwy ac yntau yn cael eu gadael mewn sefyllfa boenus. Tybiant fod ei holl ranau yn gyfartal eu gwerth ac fod ei feddylddrychau a'i athrawiaethau oll ar yr un tir o ddoethineb ac awdurdod. Darllenant lyfr y Barnwyr fel y darllenant St. Ioan, a chredant ei fod yr un mor fuddiol er hyfforddiant; tybiant fod addysg Moses am Dduw, a dyn, a moesoldeb ar yr un tir ag eiddo St. Paul, a'i fod yn arweinydd yr un mor ddiogel i ni yn yr oes hon ag oedd i'r Iuddewon yn eu taith drwy'r anialwch. Ac eto nis gallant beidio gweled y ceryddid ymddygiad Abram a Jacob, Samson a Dafydd, a llawer un arall, yn y modd llymaf yn y dyddiau hyn; tra yr ystyrid llawer o orchymynion y Pum Llyfr yn anfoesol ac annynol, pe y cynygid hwy yn awr fel sylfaen deddfau

gwladol. I gyssoni y Pum Llyfr a syniadau diweddar am dduwinyddiaeth a moesoldeb, rhaid iddynt wneyd yr ymdrechion mwyaf poenus er ceisio esbonio i ffwrdd feddwl eglur yr hen hanes trwy arllwys i eiriau ystyron nas medrant eu dal. Mae rhanau gwarthus o hanes i gael eu deall mewn ystyr ysprydol; troir yn ddamhegion unrhyw ffeithiau yn mywydau Patriarch a Barnwr allant beri blinder, ac mewn ystyr na amcanodd y bardd erioed, "nid yw pethau yr hyn ymddangosant." Yn awr, gwneid i ffwrdd a hyn oll pe ceid dynion unwaith i sylweddoli fod gyda ni yn y Beibl—addysg, nid oll ar yr un tir, ond un sydd yn barhaus yn codi o ris i ris; hanes, nid un grefydd, ond llawer o grefyddau—neu yn hytrach, hanes crefydd yn ngwahanol raddau o gynydd a dadblygiad. Yr hyn sydd genym yn y Beibl yw darlun mwy byw a gafaelgar na ellir gael yn unrhyw fan arall yn llenyddiaeth y byd o ddadblygiad crefydd a moesoldeb ar raddfa eang. Ymestyna Llyfrau y Beibl dros gyfnod maith o 1,200 o flynyddoedd, ac yn ystod yr amser hir hwn gwelwn genedl yn codi allan o syniadau isel a barbaraidd am Dduw a moesoldeb, ac yn esgyn trwy gynydd graddol i'r fath syniadau uchel ac ysprydol ag a ddysgwyd gan yr Iesu. Yn y cyfnodau mwyaf boreuol, felly, cawn gyfreithiau ac athrawiaethau ydynt yn awr wedi eu troi o'r neilldu, a'r rhai, tra yn gyfaddas i'r oes yn yr hon eu ganwyd, ydynt yn hollol anghymwys i ni. Ni chydnabyddodd neb hyn yn fwy eglur na Iesu. Yn y Bregeth ar y Mynydd pa mor aml y defnyddia y frawddeg, "*Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt,*"—ond "*yr wyf fi yn dywedyd wrthych chwi,*" gan osod o'r neilldu felly yr hen foesoldeb am rywbeth uwch a gwell. Daeth y Phariseaid ato unwaith, gan dreio ei rwydo a'i ddyrysu trwy un o hen reolau Moses am ysgar, rheol oedd yn taro dyn yn ei blentyndod, ond un oedd dyn wedi ordyfu erbyn hyny. Ateb Crist oedd, "*O achos eich calongaledwch chwi yr ysgrifenodd Moses i chwi y gorchymyn hwnw,*"* h.y., am eich bod yn rhy anwybodus, yn rhy blentynaidd ac yn rhy isel yng ngraddfa gwareiddiad i unryw beth arall. Nid oedd yr hyn orchymynodd Moses yn ddiammodol dda, nid oedd yn dda ond mewn cymhariaeth i'r hyn oedd îs; 'roedd yn gymaint ag a allai dynion pryd hyny—yn y gradd hyny o wareiddiad—ddyoddef a deall. Os y cydnabyddwn unwaith yr elfen flaenfynedol yn y Beibl, rhyddheir ni oddiwrth lawer o anhawsderau ynglyn a'r Beibl; a chan edrych arno gyda llygaid mwy rhydd a deallgar, cawn weled ei fod yn llyfr mwy rhyfeddol nag erioed, am y rheswm *nad* yw oll yr un fath, *nad* yw oll o'r un gwerth, ond ei fod yn dilyn trefn naturiol cynydd ddilynir gan ddyn—cynydd o fabandod i blentyndod, o blentyndod i ieuengctyd, o ieuengctyd i addfedrwydd oedran. Ond a ydych yn myned i borthi'r dyn a bwyd sydd yn gweddu i faban? Ai ni ddisgwyliech gael rhagor o ddoethineb ar ddechreu cyfnod maith o gynydd?

Y ffaith yw mai nid un safon sydd yn y Beibl, ond llawer o safonau. Mae ei dduwinyddiaeth a'i foesoldeb yn flaenfynedol

---

* Marc x. 5.

drwyddo. Yn ei ddechreu cawn farnau cyntefig a phlentynaidd am Dduw nas gallwn yn awr goleddu heb ammharch i'r Duwdod. Darlunia ysgrifenwyr cyntaf yr Hen Destament Dduw fel yn cerdded, yn siarad ac ar lun dyn; fel yn ymgodymu ag un hen batriarch; yn bwyta cig llo a chacenau gydag un arall; yn ymdrechu, ac am amser yn ofer, yn erbyn dewiniaeth duwiau ereill; yn arogli arogl cig ar y tân; fel yn colli ei dymher ac yn eiddigeddus, ac yna yn edifarhau; fel yn caniatau twyll ac yn gwneuthur creulondeb; ac yn arddangos bron bob nwyd ac amherffeithrwydd a berthyn i ddyn. Mae llawer o'r syniadau hyn yn syniadau syml ac yn gweddu i oes seml a phlentynaidd; ond fel yr awn ymlaen diflana hyn; daw y meddwl am Dduw yn raddol yn burach, yn fwy dyrchafedig ac uchelfrydig; trwy Farnwyr, trwy Salmwyr a thrwy'r Prophwydi, â'r dadblygiad ymlaen, fel mae genym yn y Testament Newydd y fath syniadau prydferth a hyn; Duw fel Cariad, Duw fel Yspryd, Duw fel Goleuni a Duw fel Tad. Diflanodd y cyfnos, daeth y dydd yn ei holl ogoniant.

Nid yw ein barn am seryddiaeth ddim yn waeth am fod ei dechreuad yn mynd yn ol i ofergoelion serddewiniaeth; ni werthfawrogwn fferylliaeth ddim yn llai am iddi darddu o'r anwybodaeth a'r ymbalfalu yn y tywyllwch hyny a elwir arfferylliaeth. Felly yn union, nid yw y grefydd broffeswn ddim yn llai dyrchafedig ac ysprydol am iddi gael ei dechreu mewn llawer o bethau oeddynt dywyll ac ofergoelus. Ni ddadguddir y gwir syniad am Dduw ond yn raddol. Synia dyn yn gyntaf oll am Dduw fel person tebyg iawn iddo'i hun, fel dyn ar raddfa fawr gerdda mewn gardd, yr hwn ddaw i lawr o'r nefoedd i ysbio allan beth mae pobl yn wneyd, fel pe na bae Ef yn gwybod; syniant am dano fel ar ffurf dyn a chanddo briodoleddau dynol; fel yn barod iawn i gael ei gyffroi i ddigllonedd—mewn gair, dynweddiadol (*anthropomorphic*) yw syniad dyn am Dduw. Nid yw y Tragwyddol ond dyn wedi ei fwyhau; nid dyn y bedwareddd ganrif ar bymtheg, er hyny, rhyw Gadlywydd Gordon, neu David Livingstone, neu Dr. Arnold ar raddfa fawr, ond dyn y canrifoedd boreuol, rhyw Garadog, neu Romulus, neu Abram, wedi ei fwyhau, gyda holl ddiffygion, nwydau, ac anwybodaeth y fath gymeriadau. Mor faith ydyw'r ffordd deithiwyd o'r fath syniadau anaddfed am Dduw i'r syniadau gawn ni gan Ioan a Paul. Mae'r pellder rhwng y ddau yn anferthol, ac eto trwy gynydd graddol fe gyfnewidiodd un i'r llall.

SARNICOL A'R YMOFYNYDD.—Danfonodd Sarnicol ei ymddiswyddiad fel cydolygydd YR YMOFYNYDD i bwyllgor y Gymdeithas gyfarfyddodd yn Llwynrhydowen, Mehefin 29. Dywedai nad oedd yn abl mwyach i gymeryd unrhyw ran yn nygiad allan y cyhoeddiad. Ar yr un pryd amlygai ei barodrwydd i roddi ei gynorthwy i ysgrifenu fel o'r blaen. Yr oedd yn flin gan y pwyllgor orfod derbyn yr ymddiswyddiad, a phasiwyd yn unfrydol iawn ein bod yn cyflwyno iddo ein diolchgarwch cynhesaf am ei wasanaeth gwerthfawr yn y gorphenol.—T.A.T.

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL YN LLWYNRHYDOWEN.

Ar yr 28ain o Fehefin cychwynais yn foreu o'm tre gyda'r bwriad o dalu ymweliad â Choleg Caerfyrddin—fy *alma mater*,—lle y treuliais bedair blynedd ddedwydd. Ni ddywedaf y pedair blynedd ddedwyddaf o'm bywyd : byddai hyny yn ormodiaeth. Ni olygaf, ychwaith, wrth ddyweyd hyn, fod fy mywyd tra yno yn hollol rydd o ofidiau. Delai llawer i'm rhan —gwersi anhawdd eu gwneud, gorfod ymddangos yn y dosbarth gyda'r wers heb ei gwneud neu wedi ei gwneud yn amherffaith—gwyr pob efrydydd am y gofidiau hyn. Nid oeddent, er hyny, yn ofidiau a'm llethent. Dim ond gofidiau arwynebol, a barhaent am ychydig, ac yna a ddiflanent yn ddisymwth, heb adael un effaith anymunol ar eu hol. Y mae bellach lawn chwarter canrif er yr ymadewais oddiyno, gyda'm mynwes yn llawn o obeithion am ddyfodol dysglaer, gyda chynlluniau a chastelli mawrion a gwych wedi eu hadeiladu yn nhiriogaeth y dychymyg. Ni throdd ond ychydig iawn o'r gobeithion hyn yn fleithiau, ac yn yr awyr yr oedd y castelli, heb rith o sylfaen ddaearol iddynt. Dyna ffawd y rhan fwyaf o obeithion a chynlluniau a chastelli y dyn ieuanc. Y mae pum mlynedd ar hugain wedi dysgu i mi o leiaf un wers—nad yw yr hyn fedr un dyn wneud ond ychydig iawn. Ond gobeithiaf, er hyny, fy mod wedi llanw rhyw gongl fechan yn ddefnyddiol fel tâl am y cyfleusderau osodwyd yn fy meddiant gan addysg pedair blynedd yn Ngholeg Caerfyrddin. Y fath gyfnewidiadau y mae hyd yn oed gyfnod byr o chwarter canrif yn ddwyn gydag ef. Wedi myned tu fewn i furiau yr hen adeilad anwyl, teimlwn fel pe yn sangu ar dir hollol ddieithr i mi. Yr oedd yr adeilad yr un, er fod gwelliantau ac ychwanegiadau yn amlwg. Ond yr oedd bron bob peth arall yn newydd —yr oedd yno genhedlaeth o fyfyrwyr nas adwaenwn yr un o honynt ; dieithr oedd yr ymwelwyr ; felly hefyd y dirprwywyr o Lundain, ac un o'r proffeswyr. Yr unig ddolenau-cydiol dynol rhwng y presenol a dyddiau fy nghysylltiad i â'r Coleg oedd y Prifathraw a'r Proffeswr Jones. Gyda'r meddwl trist nad oedd ond ychydig o ddyddordeb i mi yno mwyach y troais fy wyneb tua'r orsaf. Gyda'm bod yno, gwelais wynebau amryw gyfeillion o Swydd Forgan, a'u trem tua Llwynrhydowen, arwydd calonogol ein bod i gael Cyfarfodydd Blynyddol llwyddianus. Ar ol oddeutu dwy awr o deithio, yr oedd ein golygon yn gorphwys ar ardal y Llwyn. Dyma Pantydefaid, un o'r ddau achos Undodaidd cyntaf yn y sir. Paham y galwyd ef *Pant*ydefaid, methaf ddeall ; oherwydd saif ar drum y banc rhwng dyffrynoedd Clettwr a Cherdin, gydag awelon iachus Ceredigion yn chwythu arno o bob cyfeiriad. Yn sicr, gan nad beth am yr athrawiaeth ddysgir ynddo, nid "pant afiach" mo hono, mor bell ag y mae ei safle naturiol yn myned. Ychydig yn nes i lawr, deuwn at y capel coed, y gofadail gyntaf ar y ffordd o Landyssul o'r argyfwng cyffrous yn hanes cynulleidfa y Llwyn yn agos i ddeugain mlynedd yn ol. Trueni na roddid y tu allan iddo yn rhywle, mewn man amlwg, ryw ddangoseg i'r hwn a êl heibio beth ydyw. Fel y mae yn awr, y mae naw o bob deg o'r rhai a deithiant hyd y ffordd yn ei basio yn hollol anymwybodol o'r ffaith ei fod, er yn dŷ coed, eto yn dŷ â hanes pwysig yn perthyn iddo. Cofadail arall o'r un argyfwng yw yr hen gapel—adeilad cryf, eang, allai ateb dybenion y gynulleidfa am genedlaethau lawer eto, pe na b'ai llaw trais a gormes wedi ei gorfodi i geisio am noddfa arall. Dipyn yn uwch i fynu yn y dyffryn, ryw chwarter milldir o'r hen adeilad, cawn y drydedd gofadail, y capel

newydd. Adeilad eang, hardd neillduol, ydyw hwn. Hanes rhyfeddol o gyffrous yw hanes y troad allan. Bendith fawr i'r genhedlaeth bresenol fyddai cael ei gorfodi i'w ddarllen. Wrth fy mod yn esgyn yn araf dros y rhiw a arweinia at yr hen gapel o gyfeiriad Llandyssul, ymffurfiai yn fy meddwl ddarlun dychmygol o'r olygfa y boreu Sul fythgofiadwy hwnw. Tybiwn fy mod yn gweled Gwilym yn sefyll ar y gareg wrth borth y fynwent, gyda'i galon yn llawn o deimladau nad yw yn hawdd i ni amgyffred eu natur, yn anerch y gynulleidfa anferth, gynhyrfus, ddywedir oedd wedi ymgynull. Ni welais i mo Gwilym ond dwywaith erioed. Ni chefais y fraint o'i glywed gymaint ag unwaith. Ond yr wyf wedi clywed a darllen cymaint am dano, fel y credaf fod genyf ddrychfeddwl lled gywir pa fath ddyn ydoedd, a pha beth oedd yspryd nodweddiadol ei holl fywyd. Yr oedd, yn amlwg, yn un o'r eneidiau mawr a wnant eu hymddangosiad yn y byd dynol yn achlysurol, a adawant eu hol arno yn annileadwy, ac a brofant eu hunain yn rag-redegwyr blaenfynediad mewn rhyw gysylltiad neu gilydd. Carai ryddid, casäi gaethiwed; pleidiai gyfiawnder a chwareu teg, gwrthwynebai drais a gormes yn mhob ffurf o honynt; credai yn natguddiad cynyddol y gwirionedd, ac nid mewn un datguddiad a roddwyd i un genedl fechan ganrifoedd lawer yn ol; dyn oedd dyn iddo, gan nad beth ei safle gymdeithasol a'i amgylchiadau bydol, i'w farnu yn ol ei gymeriad, ac nid yn ol ei deitlau a'i achyddiaeth a'i gyfoeth; carai Dduw, ac nid ofnai ddyn; ac nid oedd lle i ddichell yn ei galon. Nis gwn a ydyw hyn yn ddarlun cywir o hono. Gadawaf y sawl a'i hadnabyddai yn dda i farnu. Ond dyna'r darlun o Gwilym sydd wedi argraffu ei hun ar fy meddwl i. Bob tro yr ymwelaf â dyffryn Clettwr y mae fy meddwl yn ehedeg ato, a chaf fy hun, bron yn anymwybodol, yn cymhwyso ato y geiriau a gyfansoddwyd gan Longfellow i Channing: "Well done! thy words are great and bold; at times they seem to me, like Luther's, in the days of old, half battles for the free." Y mae Gwilym, o ran ei gorph, yn gorwedd er's dros 30 mlynedd yn ymyl y "deml brydferth" y galluogwyd ef a'i gynulleidfa ffyddlon i'w hadeiladu yn nydd eu cyfyngder; ac y mae ei hanes, mewn un ystyr, fel y sylwodd un hen gyfaill mynwesol iddo, bron o'r un oedran ag yntau, eisioes yn hen. Ond a ydyw dylanwad ei fywyd wedi heneiddio hefyd? Nid felly. O leiaf, dyna obeithiaf. Erys ei ddylanwad — neu, fe ddylai aros — yn nerth ac ysprydoliaeth i'r rhai ydynt wedi myned i fewn i faes ei lafur. Gweddient am nerth i fod yn ymddiriedolwyr ffyddlon o'r etifeddiaeth werthfawr. Y mae hanes crefyddol ardal y Llwyn, hefyd, ar wahan i gysylltiad Gwilym Marles â hi, yn un dyddorol — yn eithriadol ddyddorol. Nid yw yn fy mwriad yn awr i roi'r hanes hwn, hyd yn oed amlinelliad o hono. Ond daw i'm meddwl, wrth ysgrifenu, enwau rhai o'r enwogion fuont yn gwasanaethu yma—Jenkin Jones, Dafydd Llwyd, Dafis Castellhywel, John Davies, Peter Joseph, David Evans, a William James o Gamnantfach, tad yr hwn fu un o ferthyron 1868. Nid yn aml y ceir yn llechres gweinidogion un gynulleidfa y fath enwau urddasol. Dwg eu henwau i gof y frwydr fawr y buont hwy yn filwyr mor ddewr ynddi—y frwydr rhwng caethiwed a rhyddid mewn materion crefyddol. Y mae y frwydr hon erbyn hyn wedi ei henill. Yr ydym ni, y genhedlaeth bresenol, yn byw yn awyrgylch rhyddid. I'r tadau uchod a llu eraill ellid eu henwi fuont yn dioddef yn mhoethder y frwydr yr ydym yn ddyledus am yr etifeddiaeth hon. A ydym ni yn ei gwerthfawrogi fel y dylem? Ofnaf weithiau nad ydym. Y mae'r etifeddiaeth hon yn un i'w mwynhau. Ond y mae hefyd yn dwyn gyda hi ddyledswyddau. Na ymfoddlonwn ar fwynhau ffrwyth yr hyn a hauwyd gan y tadau yn unig, ond mynwn fod yn ffyddlon i'n hym-

ddiriedaeth werthfawr, a throsglwyddwn hi i'r cenhedlaethau a ddêl wedi ei pherffeithio os yn bosibl. Gyda hyn o sylwadau arweiniol, rhaid troi at fanylion

Y CYFARFODYDD.

Cynhaliwyd hwy ar yr 28ain a'r 29ain o Fehefin. Yr oedd yr oll o weinidogion Cymreig y Deheudir yn bresenol. Yr oedd yn bresenol, hefyd, yr ymwelwyr canlynol:—L. N. Williams, Aberdar; G. Harold Clennell (Ysgrifenydd y Bwrdd Presbyteraidd); Harold Bailey (aelod o'r Bwrdd Presbyteraidd); Parch. J. Harwood (Ysgrifenydd y Genhadaeth Genedlaethol); Proffeswyr Moore ac Owen, Caerfyrddin; Dr. Tudor Jones (cynrychiolydd y Gymdeithas Undodaidd Saesnig), &c.

Cyfarfyddodd y Pwyllgor Arianol yn y capel am 6 o'r gloch nos Fercher. Amcan y Pwyllgor hwn yw darparu ar gyfer y Pwyllgor Cyffredinol boreu dydd Iau. Yr oedd yr oll o'r aelodau yn bresenol.

Dechreuwyd y cyfarfodydd pregethu cyntaf am 7 o'r gloch. Awd trwy y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth gan y Parch. M. Evans, Aberdar, a phregethwyd gan y Parchn. J. Glynne Davies, Aberdar, a J. P. Kane, Dowlais.

Am 9 boreu dydd Iau cynhaliwyd y Pwyllgor Cyffredinol. Yr oedd nifer luosog o gynrychiolwyr yn bresenol. Ceir adroddiad o'r gweithrediadau gan yr Ysgrifenydd yn nes yn mlaen. Yr oedd y rhaglen yn un faith, a'r amser lawer yn rhy fyr i wneud cyfiawnder â'i chynwys, a bu raid gadael amryw faterion pwysig heb sylw mewn canlyniad. Da fyddai pe gellid rywfodd ddyfeisio cynllun i fyned trwy y rhanau mwyaf dibwys o'r rhaglen yn gyflymach. Daulfater a adawyd heb sylw oeddent—(1) Y Llyfr Tonau ac Emynau Newydd; (2) y priodoldeb o gael dau gyfarfod y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, yn lle tri, fel yn awr.

Am 10.30 dechreuwyd yr oedfa gan y Parch. R. C. Jones. Yna cododd y Llywydd (y Parch. D. G. Rees, Penybont) i draddodi ei anerchiad. Ei destyn oedd "Person Crist." Ar gyfrif amseroldeb y testyn, yr oeddwn wedi edrych yn mlaen at yr anerchiad er's tipyn o amser gyda llawer o ddyddordeb. Y mae'r Cymro yn naturiol yn hoffi areithiwr hyawdl. Ond heblaw ei fod yn areithiwr hyawdl, y mae mater areithiau a phregethau Mr. Rees bron yn ddieithriad yn codi'r gwrandawr i dir uchel. Dyna fel y bu yn y Llwyn. Aeth y deugain munud y bu yn llefaru heibio yn rhwydd. Edrychaf yn mlaen yn awyddus am weled yr anerchiad mewn ffurf *helaethedig*, a gobeithiaf na rydd y Golygydd lonydd iddo hyd nes cyflawna Mr. Rees ei addewid. Siaradwyd yn mhellach ar yr un pwnc gan y Parchn. M. Evans, Aberdar (yn Saesneg); R. J. Jones, M.A., Aberdar, a Mr. John Hopkins o Gellionen. Clywais lawer gair o ganmoliaeth i anerchiad cryno, cynhwysfawr a phwrpasol yr olaf. Ar ol talu diolch i Mr. Rees am ei wasanaeth fel Llywydd, cafwyd dau anerchiad Saesneg—un gan y Parch. J. Harwood, y llall gan y Proffeswr Moore.

Am 2 dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. J. Davies, a phregethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis o'r Rhondda a T. J. Jenkins, Hinckley—yr olaf y pregethwr penodedig. Cyn diweddu'r cyfarfod hwn, cafwyd dau anerchiad Saesneg eto — gan Mr. Bailey a Mr. Clennell. Efallai fod rhai yn barod i achwyn fod cymaint o anerchiadau Saesneg mewn cyfarfodydd mewn ardal mor Gymreig ag ardal y Llwyn. Ond i'r mwyafrif achos llawenydd ydyw'r ymweliadau hyn â'n cyfarfodydd ar ran ein cyfeillion Seisnig. Parant i ni deimlo nad unig a di-gydymdeimlad ydym yn ein hymgais i ddal i fynu faner crefydd ryddfrydig yn Nghymru. Ac iddynt hwythau, hefyd, y mae eu hymweliadau yn fendithiol. Ar derfyn cyfarfod y prydnawu dywedodd Mr. Clennell wrthyf na fu erioed mewn cyfarfodydd Undodaidd mor frwdfrydig. Edmygai a mwynhai'r canu

yn fawr, a gofidiai na fedrai ddeall y pregethau.

Yn yr hwyr, am 6, dechreuwyd gan y Parch. L. Williams, a phregethwyd gan y Parchn. W. Tudor Jones, Ph.D., ac R. J. Jones, Aberdar.

Felly terfynwyd un o'r Cyfarfodydd Blynyddol mwyaf llwyddianus. Yr oedd yn bresenol gynrychiolwyr o bob un o eglwysi Ceredigion, o Gelliionen ac o Aberdar. A gwnaeth eglwys y Llwyn ei rhan yn ardderchog i roesawu y dieithriaid.

Cribyn. D. EVANS.

Y PWYLLGOR BLYNYDDOL.

Cynhaliwyd yn Llwynrhydowen, Mehefin 29, y Llywydd, y Parch. David G. Rees, yn y gadair. Ar ol darllen a chadarnhau cofnodion y Pwyllgor blaenorol, cafwyd adroddiad y Trysorydd am y flwyddyn. Yr achwyniad eleni fel arfer oedd nad oedd swm y casgliad, neu yn fwy cywir, nifer y Tanysgrifiadau ddim yn deilwng o honom. Y mae llawer iawn o Undodiaid tufewn i'r eglwysi, ac hefyd ar wasgar tuallan i'r eglwysi, a allasent gynorthwyo yn sylweddol iawn yr achos y proffesant berthyn iddo. Mewn cysylltiad â'r YMOFYNYDD, sylwyd fod y Dosparthwyr yn ei theimlo yn anhawdd lawer pryd, oherwydd difaterwch y derbynwyr, i gael y tâl i'w llaw pan yn ddyledus. Gofynwyd i'r gweinidogion i ddweyd gair dros y pwlpud er cynorthwyo y Dosparthwyr yn y cyfeiriad hwn. Caniatawyd i'r Trysorydd i wneyd ei fantolen i fynu ar y dydd diweddaf o Orphenaf, fel ag i gynwys cyfrif y Cyfarfod Blynyddol. Gosodir y fantolen ger bron Pwyllgor yr Hydref wedi ei archwilio. Derbyniwyd adroddiad y Pwyllgor Arianol, yr hwn oedd fel y canlyn :—£10 i weinidog y Ciliau a £5 i weinidog Capelycwm ; £3 tuag at yr achos yn Mhanteg, a £2 yr un, ar amodau, at wasanaethau neillduol yn Caeronen a Chapelycwm ; £10 i Drysorfa y Llyfr Tonau ac Emynau ; £1 1s. yr un i'r *British & Foreign* a'r *National Conference.* Rhoddwyd adroddiad gan yr Ysgrifenydd (y Parch. R. C. Jones) o sefyllfa arianol Cymdeithas Addysgol y Gweinidogion Undodaidd Cymreig. Y mae tri *Bursar* yn awr o'r Gymdeithas hon, sef Mri. E. T. Lewis, Llandyssul ; D. Cellan Evans, Caeronen, a Ben Davies, Llandyssul. Yr oedd yn flin gan y Pwyllgor glywed am afiechyd y blaenaf, a phasiwyd ein bod yn danfon llythyr i gydymdeimlo âg ef yn ei afiechyd ac yn dymuno iddo adferiad buan.

Etholwyd y Swyddogion canlynol :—Llywydd, D. Tyssul Davies, Ysw., Aberdar ; Is-lywydd, Y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield ; Trysorydd, D. Martin Jones, Ysw., Gwion Castle, Llandyssul ; a'r Ysgrifenydd fel o'r blaen. Archwilwyr, Mri. John Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul, a J. O. James, Brynhyfryd. Dewiswyd y rhai canlynol ar y Pwyllgor Arianol : Y Swyddogion, y Parchn. R. J. Jones, M.A., R. C. Jones, David Evans, E. O. Jenkins, y Mri. John Evans, Llandyssul, a Josiah Jones, Garthowen. Dewiswyd y Parch. R. J. Jones, John Davies a'r Ysgrifenydd ar yr *Advisory Committee*, a chaniatawyd iddynt eu treuliau pan yn mynychu cyfarfodydd y cyfryw.

Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr fu'n cyfarfod cynrychiolwyr y Bwrdd Presbyteraidd mewn cysylltiad â Choleg Caerfyrddin a myfyrwyr Undodaidd. Oherwydd prinder amser ni chafwyd fawr ymdrafodaeth ar bwnc y Llyfr Tonau ac Emynau. Anogai y Golygydd y gweinidogion a lleygwyr i ddanfon iddo unrhyw emynau garent weled yn y llyfr newydd, ac achwynai mai ychydig help y mae wedi gael hyd yn hyn. Gorfodwyd gohirio y mater o gynal dau gyfarfod y Gymdeithas yn lle tri, a lle cynhaliad y cwrdd nesaf.

ARTHUR THOMAS
(Ysgrifenydd).

UNDODIAID A'R PWNC O BERSON CRIST.

Nodiadau o Anerchiad Llywydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, yn Llwynrhydowen, dydd Iau, Mehefin 29ain, 1911.

Dywedodd un o weinidogion ein henwad wrth ei gynulleidfa yn fy nghlyw "Pe buasent yn darllen 'YR YMOFYNYDD' yn ogystal a'i dderbyn, y buasent yn gallu cadarnhau yr hyn oedd yn ddweyd wrthynt." Gallaf hawlio fy mod nid yn unig yn derbyn a darllen "YR YMOFYNYDD" yn gyson fel y mae yn dod i'm llaw, ond yr wyf hefyd yn darllen llawer ar yr hen gyfrolau o hono. Ac yr wyf wedi sylwi fod y teidiau yn dra hoff o gynal cynadleddau ar wahanol bynciau athrawiaethol, ac ar faterion ereill oeddent yn dwyn perthynas agos a llwyddiant a blaenfynediad yr achos crefyddol yn ein eglwysi. Meddyliais mai nid anfuddiol fuasai myn'd yn ol at yr hen arferiad hwnw heddyw, yn hytrach na thraddodi yr hyn a ddisgwylir yn gyffredin fel anerchiad y Llywydd, pan fyddo yn darfod a'i swyddogaeth am y flwyddyn.

Yr wyf wedi cymeryd y penawd uchod, nid am fy mod yn amcanu dweyd dim a fydd yn newydd i neb sydd yma, ond am fy mod yn awyddus iawn i gael gwybod beth ydyw barn ein gweinidogion a'n lleygwyr ar y pwnc. Ac y mae yr awydd o wyntyllu y pwnc hwn wedi codi yn fy meddwl oddiwrth anhawsder ymarferol sydd gynifer o weithiau wedi dod i fy nghyfarfod ar yr *Unitarian Van Mission.* Yr wyf yn meddwl y gallaf hawlio fod yr hen frwydrau duwinyddol mewn perthynas i'r Drindod, Iawn ddirprwyol ac anffaeledigrwydd y Beibl wedi cael eu henill gan yr Undodiaid ac ereill sydd wedi bod yn cydfrwydo a hwy dros grefydd a syniadau rhyddfrydig. Ac o'r braidd y gellir dweyd fod y pynciau a nodais yn nghyd a llawer o rai eraill yn bynciau byw yn y dyddiau hyn. Yr unig bwnc sydd a gwir fywyd ynddo i *critic* y *Van Mission* yw y Pwnc o Berson Iesu Grist. A chan ein bod yn dod allan fel eglwys genhadol yn fwy nac erioed o'r blaen yn ein hanes, yr wyf yn llwyr argyhoeddedig fod yn rhaid i ni gael cenadwri glir a diamwys i osod ger bron y byd cyn y bydd yn bosibl i ni gael llawer o ddylanwad er daioni ar y bobl ydym yn cynyg ein cenadwri iddynt. Sonir yn yr Efengyl am gymeriad yr hwn oedd yn "Ceisio gorphwysdra ond yn methu a'i gael." Dyna i fesur helaeth yw sefyllfa y byd crefyddol heddyw, ac y mae yn bosibl fod ein henwad bychan ni yn dioddef oddi wrth y diffyg gorphwysdra hwn yn fwy na neb. Y mae yn ein plith gynifer barnau mewn perthynas i bron bob pwnc crefyddol a duwinyddol fel y mae anmhosibl gwybod at bwy, nac i ba le i gyfeirio y nifer luosog o bobl ieuainc sydd yn ceisio am arweiniad genym yn eu amheuon a'u tywyllwch. Y mae yr hen *pilots* wedi cael eu gollwng dros y bwrdd, yr hen *charts* wedi eu gosod o'r neilldu, a'r hen gwmpawd i fesur helaeth wedi ei ddiddymu, a dim ond mympwy unigolyn neu unigolion yn llywio llong enwadol trwy *fog banks Newfoundland* ysprydol. Ond credaf fod y fath sefyllfa yn hollol anfoddhaol, ac er fy mod yn groes i osod i fyny gredo sydd yn cael ei gosod ger bron yn awdurdodol, ac fel amod aelodaeth, eto yr wyf yn gryf o'r farn fod yn rhaid i ni gyrhaedd digon o gytundeb i allu

gosod ger bron y byd yn glir ac heb amheuaeth seiliau ein crefydd ac amcan ein bodolaeth fel eglwys. A chredaf fod un pwnc uwchlaw pob un arall a benderfyna nid yn unig ein llwyddiant a'n blaenfynediad yn y dyfodol, ond hyd yn nod ein bodolaeth fel cyfundeb crefyddol, sef y gofyniad a'r atebiad rown iddo "Beth debygwch chwi am Grist." Fel y crybwyllais uchod i'r *man in the street* a beirniad y *Van Mission* y mae pob pwnc duwinyddol wedi eu gostwng i un "Beth yw eich agwedd tuag at Sylfaenydd Cristionogaeth?" Pa atebiad gawn ei roi? Dyma yr *hinge* ar yr hon y mae y drws yn hongian sydd i roi mynediad helaeth i mewn, neu i'n cau allan o'r frawdoliaeth Gristionogol. Y mae yn amhosibl i ni fyn'd yn ol at Ddyn gwyrthiol y Sosiniaid, yr hwn a gymerwyd i'r nef i gael ei hyfforddi yn ei genadwri, ar ol ei fedydd. Y mae Crist yr Ariaid, yr hwn nad oedd yn wir ddyn nac yn wir Dduw, er y cyntaf o greaduriaid Duw, hefyd yn amhosibl. Credaf yn mhellach fod y "Dyn o Nazareth" a'r "Dyn Iesu" y pamphledau o Essex Hall yn druenus o anigonol. Anghytunaf mewn modd poenus oddiwrth y Prif Athraw J. Estlin Carpenter pan y dywed na fydd crefydd y dyfodol yn "sefyll ar fod Crist yn ganolbwynt fwy na Plato."

A ydyw aelodau y Gymdeithas hon yn credu, fel y credaf i o'm calon fod yn rhaid i bob ffurf o Gristionogaeth i fod yn Grist-ganolog (*Christocentric*) bob amser ac yn mhob man. Yr wyf yn dweyd unrhyw fath o Gristionogaeth yn bwyllog; oblegid y mae llawer o Undodiaeth yn y byd yr hwn nid yw yn Gristionogol. Y mae 11 miliwn o Iuddewon yn y byd y rhai ydynt yn Undodiaid diysgog. Ac y mae o leiaf 200 miliwn o Fahometaniaid, prif erthygl yn nghredo y rhai yw Undod Duw, ond y maent tu allan i Gristionogaeth. Gwelir tueddiad amlwg yn eglwysi Cristionogol Undodaidd Lloegr a'r America yn ddiweddar tuag at yr hyn a ellir ei ddesgrifio fel y safbwynt Theistaidd yn unig. Emynau, a llyfrau gweddi, yn cael eu newid fel ag i fyn'd yn ol i gyfeiriad Theistaidd Iuddewig, a thueddiad i roi Crist y Testament Newydd yn mhlith amryw ddysgawdwyr mawrion ereill yn y byd. Lle bynag y cymer hyn le, credaf fod y cyfryw eglwysi yn gosod eu hunain y tu allan i wir yspryd Cristionogaeth. Y mae yr Efengyl ysgrifenwyd foreuaf yn dechreu trwy gofnodi argyhoeddiad yr ysgrifenydd yn arbenigrwydd (*uniqueness*) Iesu Grist fel "Iesu y Crist, mab Duw," (Marc 1 : 1) ar y graig hon yr adeiladwyd yr eglwys, ac ar y graig hon yn unig y mae gobaith i'r eglwys allu sefyll. Y mae Crist yn dal perthynas hollol wahanol i'r Cristion, i'r hyn y mae Moses yn dal i'r Iuddew, neu Mohamed i'r Moslem, neu y Buddha i'r Buddhist. Y mae deddf Jehofa yn ddigon i un, y Koran i'r llall, a'r llwybr wythplyg i'r llall. Ond yr un peth oedd yn nodweddu bywyd y Cristion boreuol oedd ei ffyddlondeb hyd angeu i Grist, yr hwn oedd wedi byw a marw drosto. Yr hwn hefyd a ddywedodd, "Hebof fi ni ellwch wneuthur dim." Ac y mae deunaw canrif hanes Cristionogaeth yn gwireddu y broffwydoliaeth. Y mae wedi dweyd y bydd i'w wir ddysgyblion adnabod ei lais, ac nis gellir gwahanu llais oddiwrth y person y perthyn iddo.

Nid oes neb yn y gynulleidfa hon yn fwy o edmygydd o athrylith Theodore Parker nag ydwyf fi fy hun. Ond un o'r anffodion mwyaf a gymerodd le yn ein hanes oedd fod cynifer o'n pobl wedi rhoddi cred iddo pan yr oedd yn dal mai y peth gwerthfawr yn hanes Crist oedd ei eiriau (*precepts*), a phan yr honai y byddai y geiriau yr un mor effeithiol pe baent wedi cael eu llefaru gan Cataline neu gan Herod. Gofidiaf fod un mor wir grefyddol a Parker wedi rhoddi dadganiad i'r fath syniad, syniad fel y tybiaf sydd mor gyfeiliornus mewn moesau a chrefydd; ond gofidiaf fwy fod cynifer o Undodiaid wedi ei gymeryd ar ei air yn y peth hwn. Ond y mae yn

arwyddocaol fod Theodore Parker yn cydnabod ei fod ef y tu allan i Gristionogaeth. Nid wyf er hyny yn ceisio dadleu dros goleddu syniadau duwinyddol am Grist. Credaf fod gormod o bwys wedi cael ei roi ar hyn yn y gorphenol. Ond dadleuaf am iddo gael ei le priodol yn ei eglwys ei hun, ac fod ffyddlondeb ein bywydau i gael ei roi iddo fel unig Sylfaenydd a Phen yr Eglwys: fel Cenhadwr llawnalluog (*plenipotentiary*) y Nefoedd: fel Awdwr a Pherffeithydd ein Ffydd: fel Tywysog ein Iachawdwriaeth, yr hwn sydd i'n harwain i fuddugoliaeth yn ein hymdrech yn erbyn y byd, y cnawd a'r diafol; yr hwn sydd wedi rhwygo y llen, ac wedi ein dwyn i eistedd wrth draed y Goruchaf, ac sydd hefyd wedi ein galluogi i edrych i fyny i wyneb yr Holl-sanctaidd ac i ddweyd Abba Dad. Ac os bydd iddo ofyn i ni yn ein dallineb a'n difaterwch, "A ewch chwithau hefyd ymaith?" Atebwn yn ngeiriau yr Apostol. "At bwy yr awn ni ond attat ti, O! Arglwydd, canys genyt ti y mae geiriau y bywyd tragwyddol."

O.Y.—Nid amcenais i'm anerchiad fod yn ddim amgenach nag agoriad i'r llefarwyr oeddwn yn ddisgwyl i'm dilyn. Ond cefais i fel llawer ereill yn y cyfarfod siomiant am fod cymaint i'w wneyd, fel yr oedd yn anmhosibl cael amser i drafod y y pwnc mewn modd ag y mae ei bwysigrwydd yn hawlio. Dywedodd Cadeirydd y Bridgend Free Church Council wrthyf yn ddiweddar mai y pwnc o "Berson Crist" oedd yr "*Insurmountable Barrier*" rhwng yr Undodiaid a'r eglwysi rhydd eraill. Os felly, y mae yn awgrymu fod llawer o'r hen wrthgloddiau a fu rhyngom unwaith wedi eu tynu i lawr. Hyderaf y cawn farn darllenwyr YR YMOFYNYDD, yn weinidogion a lleygwyr, ar y gwrthglawdd olaf hwn, i benderfynu os yn bosibl pa un a ydyw yn "*Insurmountable*" ai peidio.

D. G. REES.

YMWELIAD A HUNGARY.

GAN Y PARCH. E. CEREDIG JONES, M.A.

(PARHAD).

Cytunir yn gyffredinol fod pedair dinas yn y byd sydd yn rhagori ar ereill yn harddwch eu sefyllfa, sef Constantinople, Stockholm, Venice a Budapest. O'r pedair hyn ystyrir Budapest gan lawer fel yr harddaf. Mae y Danube ar ei goreu yn y fan hon. Ar y llaw dde pan yn wynebu ei tharddiad saif y Palas Brenhinol ac eglwys enwog St. Coroinus ar glogwyni uchel. Yr oeddym yn bresenol yn yr eglwys hon mewn gwasanaeth coffadwriaethol am yr Ymherodres dair blynedd ar ol ei marwolaeth. Yr oedd hi yn anwyl a phoblogaidd iawn gyda'r Hungariaid. Yr oedd y gwasanaeth yn darawiadol iawn ac yn olygfa na allwn byth anghofio. Gelwir yr ochr hon i'r afon yn Buda. Ar yr ochr arall mae Pest gyda'i cholegau ardderchog, ei hamgueddfeydd, ei llyfrgelloedd, a'i senedd-dai, wedi eu hadeiladu yn arddull St. Stephan, yn Westminster.

Arddengys y ddinas hono yn agos i filiwn o bobl, arwyddion llwyddiant yn mhob cyfeiriad. Yn wir er pan

ryddhaodd yr Hungariaid eu hunain oddiwrth ddylanwadau gor-geidwadol Awstria maent wedi gwneyd cynydd rhyfeddol. Er fod Eglwys Rhufain yn gref yn y wlad, nid yw y bobl o dan awdurdod a dylanwad yr offeiriad fel yn yr Yspaen. Gosodir gwladgarwch goleuedig, yr hyn a arddengys ei hun mewn addysg uwchraddol a brwdfrydedd masnachol, o flaen sectyddiaeth.

Arweinia hyn fi i ddweyd gair am grefydd y wlad. Yn amser y diwygiad Protestanaidd bedwar cant o flynyddau yn ol yr oedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn perthyn i Eglwys Rhufain fel y gwnai ei chymydogion yn Ewrop. Yn y dwyrain ar lanau'r Danube a'r Mor Du, fel heddyw, yr oedd llawer o Wallackiaid, y rhai a gyfrifant eu hunain yn ddisgynyddion o'r milwyr Rhufeinig yn yr hen amser, ac a siaradant iaith yn debyg i'r Lladin. Perthynai y rhai hyn yr amser hwnw fel yn bresenol i'r Eglwys Roegaidd. Pan oedd Luther yn gwrthwynebu Eglwys Rufain yr oedd y Tyrciaid yn ymosod ar Hungary o dan eu llywydd "Solyman y Mawreddog" fel ei gelwid. Cymerwyd Belgrave, yr hon ddinas oedd yr allwedd i agor y drws i Ewrop yn 1521, ac yn 1526 dinystriwyd yn gyfangwbl y fyddin Hungaraidd ar wastadedd Mohacs gan filwyr y Sultan y rhai a rifent ddau can mil. Cymerodd y Tyrciaid Budapest, a bu yn eu meddiant am yn agos i gant a haner o flynyddau. Yr oedd Hungary mewn cyflwr truenus. Ar un llaw gorthrymid hi gan y Tyrciaid tra ar y llaw arall erlidid hi gan deulu brenhinol Hapsburg, ag oeddynt mewn awdurdod yn Awstria. Derbyniodd yr Hungariaid egwyddorion y Diwygiad yn llawen, ond gwnaeth teulu Hapsburg, y rhai yn ddiweddarach a ddaethant dan ddylanwad y Jesuitiaid, eu goreu i gadw y dylanwad Catholicaidd mewn uchafiaeth. Dri chant a thrigain mlynedd yn ol yr oedd yr Undodiaid y rhai oeddynt wedi drachtio yn fwyaf helaeth o yspryd y Diwygiad, yn weithgar iawn yn Poland, a gwnaeth eu blaenoriaid eu ffordd i Hungary a Transylvania, lle y cawsant lawer iawn yn barod i gofleidio Undodiaeth. Dygwyd y ffydd Undodaidd i Transylvania yn gyntaf gan Isabella merch brenin Poland, yr hon a briododd Zapolya yr Ail. Yr oedd wedi cael ei haddysgu yn egwyddorion Michael Servetus y Diwygiwr Undodaidd gan Blandrata ei physygwr. Yn ystod ei theyrnasiad ar ol marwolaeth ei phriod, hyd nes daeth ei mab i'w oed, gwnaeth Undodiaeth yn grefydd y llys brenhinol, ac fel y dywed John Paget yn ei lyfr ardderchog ar Hungary, pan ddaeth Undodiaeth yn grefydd y Llys daeth yn fuan yn grefydd y rhai a'i mynychent.

Yn 1568, gwnaeth Francis David, blaenor yr Undodiaid ledaenu yr egwyddor o berffaith gydraddoldeb crefyddol. Cynhaliwyd cyfarfod mawr—math o gyngrair—yn nhref Torda, yn y "Diet House" yr hwn sydd yn sefyll hyd heddyw, i'r hwn y gwahoddwyd cynrychiolwyr o bob rhan o'r wlad, ac ar gynygiad Francis David pasiwyd fod, o hyn allan, yr holl enwadau drwy'r wlad mewn perffaith ryddid i addoli Duw yn unol â llais eu cydwybod.

Dyma yr engraifft gyntaf o berffaith gydraddoldeb crefyddol yn Ewrop. Bum yn yr ystafell lle pasiwyd y mesur hwn ; a gwelais hefyd y pictiwr ardderchog a baentiwyd ychydig flynyddau yn ol i gadw y digwyddiad hwn ar gof i'r oesau a ddêl.

Daeth eglwysi Undodaidd i fodolaeth yn mhob rhan o Hungary a Transylvania. Apwyntiwyd Francis David fel yr Esgob cyntaf, ac mae ein heglwysi yn parhau yn esgobaethol hyd y dydd hwn. Pregethodd un tro o ben careg fawr mewn man cyhoeddus yn nhref Kolozsvar, a throdd yr holl boblogaeth at Undodiaeth. Cariodd y bobl ef ar eu hysgwyddau i'r Eglwys Gadeiriol gerllaw, a gosodasant ef yn y pwlpud. O'r pwlpud yna pregethwyd Undodiaeth am gant a haner o flynyddoedd, hyd y trowyd y gynulleidfa allan gan filwyr Awstria yn 1717. Amddifad-

wyd llawer o gynulleidfaoedd Undodaidd eraill o'u heglwysi yn yr un modd. Yn 1578—deng mlynedd ar ol pasio y mesur o gydraddoldeb crefyddol—yr oedd rhwng pedwar a phum cant o gymdeithasau Undodaidd yn Hungary a Transylvania, rhai o honynt yn rhifo amryw filoedd. Ond bu farw y tywysog Undodaidd, mab Isabella, yn 1571, ac yr oedd ei olynydd yn perthyn i Eglwys Rhufain. Darfu i'r gwr hwn garcharu Francis David yn Nghastell Déva yn 1579, lle y bu farw yn mhen ychydig fisoedd. Dioddefodd yr Undodiaid brofedigaethau na ellir yn iawn ddarlunio mewn geiriau. Trodd y Pabyddion hwynt allan o'u heglwysi a'u hysgolion. Yn Hungary difodwyd ein heglwysi yn llwyr. Dywedai yr Hungariaid fod y Tyrciaid yn fwy trugarog na'r Jesuitiaid. Er hyny mae yspryd yr amseroedd wedi cyfnewid erbyn heddyw. Yn awr mae y gwahanol enwadau yn byw yn heddychol ochr yn ochr—Pabyddion, Calfiniaid, Groegiaid ac Undodiaid. Yn wir, mewn rhai manau defnyddia yr holl enwadau hyn yr un adeilad ar wahanol amserau o'r dydd i gynal eu gwasanaeth ynddo. Yn bresenol y mae dros ddau cant o gymdeithasau Undodaidd yn y wlad, gan mwyaf yn Transylvania. Mae rhai o honynt yn lluosog iawn, yn cynwys poblogaeth tref neu ardal gyfan. Mae Eglwys Budapest yn gymharol newydd. Er pan adgyhoeddwyd Undodiaeth yn y brifddinas ychydig flynyddau yn ol, mae amryw eglwysi newyddion wedi dyfod i fodolaeth yn y gymydogaeth, ac mae hâd ein ffydd wedi ei hau yn helaeth. Pan yn Budapest daeth parti o Undodiaid i gyfarfod â ni yr holl ffordd o Polardi ar lanau llyn Balaton — taith o bedair awr neu ragor. Ni allent siarad un iaith ond Magyar a Roumanaeg. Nid oeddynt wedi gweled Prydeinwyr erioed o'r blaen. Gan nad allem siarad â hwynt, gwnaethom y diffyg i fyny drwy ysgwyd llaw â'n gilydd mor aml ag y gallem. Yr oedd yn hyfrydwch mawr ganddynt wybod y cynrychiolid yn y wlad hon y ffydd ag oedd mor anwyl ganddynt. Y dydd cyntaf ar ol i ni gyrhaedd Budapest, dygwyd ni i weled gwahanol leoedd o ddyddordeb. Mae yr holl adeiladau cyhoeddus yn deilwng o ddinas fawr—y Senedd-dai, y Llys Cyfreithiol, yr Amgueddfa Lawweithfaol, yr Ysgolion Uwchraddol a'r Brifysgol. Ar lawer o'r adeiladau ceir, wedi ei gerfio neu ei baentio, hanes caled Hungary yn ei hymdrechion o blaid rhyddid, mewn cerfluniau, pictiwrau a cherf-ysgrifeniadau. Mae yr yspryd cenedlaethol yn amlwg iawn, yr hwn a ddangosir yn neillduol yn yr Anthem Genedlaethol, rhydd-gyfieithiad o'r hon sydd fel y canlyn :—

" Dad bendithia Di o hyd
Wlad y Magyar, tegwch byd ;
Pan o gylch y gelyn ddaw,
Cadw hi â'th gadarn law ;
Prudd ei hanes, ond daeth gwawr,
Duw wobrwya'r dewr yn awr,—
Cyfnod gobaith, llawnder mawr,
A rhyddid mwy dros fyth."

Ar braidd bob achlysur neillduol cenid y gân hon gyda gwir deimlad.

Yr un dydd cawsom ddwy daith ddymunol — y gyntaf i Ynys St. Margaret ar y Danube, yr hon sydd baradwys ddaearol fechan oddeutu tair milltir o hyd. Arni y mae amryw ffynonau poethion, a choedydd ardderchog, ail yn unig i binwydd California mewn tegwch a maintioli. Felly y tyfa prenau wedi eu planu " ar lan afonydd dyfroedd." Rhydd un o'r ffynonau ddigon o ddwfr i droi melin. Perswadiwyd fi i roddi fy llaw ynddo, ond ni wnawn hyny eto ar un telerau. Gerllaw mae baddon neu ymolchdai hardd, y rhai a fynychir gan mwyaf gan gleifion fel yn Harrogate a Bath. Dywedir pan fyddo gwaith yn brin, y tywydd yn oer a'r tanwydd yn ddrud, fod llawer o dlodion yn myned yno yn y boreu, yr hyn a allant wneud drwy dalu ceiniog, ac yn aros yn y dwr drwy'r dydd er mwyn cadw yn gynes ! Ar yr ynys ryfeddol hon rhoddodd ein

cyfeillion roesawiad ffurfiol i ni, ac yr oedd yn bleser na allwn fyth anghofio. Dyma'r tro cyntaf i mi i anerch cynulleidfa o Hungariaid, a theimlwn dipyn bach yn ofnus; paham, nis gwn. Cyfeiriais at y cydymdeimlad cryf oedd wedi bodoli yn hir rhwng y ddwy wlad—fel yr oedd gan y ddwy genedl yr un serch at ryddid a'r un delfryd cymdeithasol. Cyfieithwyd fy sylwadau ar unwaith i iaith y wlad; a barnu oddi wrth y gymeradwyaeth a ddilynodd, credaf fod y cyfieithiad yn llawer mwy hyawdl na'r gwreiddiol.

O'r ynys arweiniwyd ni i ben mynydd uchel, coediog, gerllaw'r ddinas, er mwyn cael cipdrem o'r wlad oddiamgylch. Gallem olrhain dyfroedd prydferth y Danube am filltiroedd lawer, a gorweddai y ddinas o'n blaen yn ei holl ardderchawgrwydd. Pwyntiwyd allan lawer llanerch i ni lle y bu ymladdfeydd gwaedlyd rhwng y Tyrciaid a'r brodorion. Yn wir gellid dweyd fod y bryniau tragywyddol a'r Hungariaid wedi bod yn offerynol i gadw y Tyrciaid rhag goresgyn yr oll o Ewrop. Yr ydym oll dan rwymau i ddiolch i'r bobl hyn am eu gwasanaeth ardderchog i ddynoliaeth.

(I'W BARHAU).

Y BEIBL CYMRAEG

(PARHAD).

Oherwydd yr anghydwelediad rhwng Salesbury a'r Esgob Davies, gorfu i Gymru ddisgwyl am un flynedd ar hugain cyn cael yr Hen Destament yn y Gymraeg. Ac yr oedd y Testament Newydd, fel y sylwyd eisoes, yn ddigon anmherffaith ei ddiwyg. Nid yw'n debyg fod yr Eglwys yn y cyfnod hwn yn fyw iawn, gan nad oes son am un ymgais ar ran ei harweinwyr i lanw'r diffyg. Pan ymddangosodd Beibl cyflawn yn 1588, ficer plwyf mynyddig, anghysbell ar ororau Maldwyn biau bron yr holl glod. Mae'n wir y cydnabyddir gwasanaeth Esgobion Bangor a Llanelwy, Deon Goodman, Westminster, Archddiacon Prys, y Dr. John Davies o Fallwyd ac eraill yn y llythyr cyflwyniad, eto credir mai cywiro y prawflenni, ac o bosibl rhoddi ambell awgrym, yn ychwanegol at galonogi y cyfieithydd yn unig a wnaethant.

WILLIAM MORGAN, D.D.

"A gair Duw yn egored aeth,
Yn deg o'i enedigaeth;
Duw ennynodd dawn unwaith
Doctor anhepcor o'n hiaith,
Yn deg o niwl a'n dug ni,
Ac i lan y goleuni;
Mae Doctor a rhagoriaeth,
Morgan wych, mab Mair, a'i gwnaeth;
Blaenor, gyngor y gangell,
Bugail yw heb ei well."

Ganwyd William Morgan yn Nhy Mawr, Ewybrnant, ffermdy ym mhlwyf Penmachno, Arfon. Credir mai yn 1547 y ganed ef, er nad oes perffaith sicrwydd ynghylch hynny. Ei dad oedd John ap Morgan ap Llywelyn, a'i fam oedd Lowri, merch William ap Ioan ap Madog. Cyfieithydd y Beibl oedd y cyntaf o'r teulu i fabwysiadu'r cyfenw Morgan. Nid oedd ei dad yn wr o gyfoeth, ac felly yn analluog i roddi addysg

dda i'w fab. Yr oedd cyfleusderau addysgol y cyfnod yn brin iawn. Nid oedd yng Nghymru ar y pryd ond ychydig Ysgolion Gramadegol, ac yr oedd yn ofynol perchenogi cryn gyfoeth i fanteisio ar rhain. Dywed traddodiad lleol i William dderbyn addysg gan fynach gafodd loches yn Nhy Mawr ar ol tori fyny'r hen fynachdai, ond nid oes sicrwydd ynghylch hyn. Pan yn lled ieuanc daeth i sylw Wynniaid, Gwydyr, hen deulu enwog a chyfoethog drigiannai nid pell o dŷ ei dad. Cafodd dderbyniad i Balasdy'r Gwydyr, ac yno yr addysgwyd ef gan gaplan y teulu. Yn 1564 ymaelododd yng Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, cyrchfan llu o Gymry cyn sefydliad Coleg Iesu yn Rhydychen yn arbennig ar eu cyfer. Tebygol i deulu caredig y Gwydyr roddi cymorth arianol iddo i fyned i Gaergrawnt, a bernir mai drwy ddylanwad un arall o'r teulu y cafodd dderbyniad yno fel *sizar*. Ymhen blwyddyn wedi iddo fynd i'r Coleg daeth Whitgift i Gaergrawnt yn Athro Duwinyddiaeth, a chredir i Morgan fynychu ei ddarlithiau. Syniai'n uchel iawn am Whitgift fyth ar ol hyn, a gwnaeth y disgybl argraff lawn mor ffafriol ar yr Athro. Cawn brofion o hyn pan soniwn am ei waith fel cyfieithydd. Yn fuan wedi mynd i Gaergrawnt collodd bob cydymdeimlad â Phabyddiaeth ddygodd gydag ef o Gymru. Glynodd y Cymry yn dynach yn hen grefydd y tadau na'r Saeson, ond yr oedd ardymyr Brotestanaidd Caergrawnt yn ddigon cynes i doddi cydymdeimlad Pabyddol mwyafrif y Cymry ddelai yno, ac ni fu William Morgan yn eithriad. Tra yn yr athrofa dysgodd Hebraeg yn ogystal a'r ieithoedd Clasurol, ac yn 1567 graddiodd yn B.A., ac yn M.A. yn 1571. Cymerodd y radd o B.D. yn 1578, ac yn 1583 gwnaed ef yn D.D. Dywed traddodiad iddo fod yn darlithio yn ei goleg am dair blynedd ar ddeg ar ol cymryd gradd, ond ni chadarnheir hyn gan goflyfr y coleg. Nid oes son am ei ordeiniad yn offeiriad, ac ni wyddis le y treuliodd y blynyddoedd cyd-rhwng 1567 a 1585. Ond rhaid ei fod yn wr urddedig yn y flwyddyn olaf oherwydd yn Awst gwnaed ef yn ficer Trallwm Coch. Er na siaredir llawer o Gymraeg yn Nhrallwm nawr, y pryd hwnw yr oedd mwyafrif y plwyfolion yn Gymry, a thebygol i'r ficer deimlo'r angen am Feibl yn iaith y bobl. Ni chaent ond penod o'r Testament Newydd ymhob gwasanaeth, ac yn sicr yr oedd darllen iaith sâl hwnw yn benyd tost i Gymro penigamp fel oedd y ficer.

Wedi mynd i Drallwm priododd Morgan Katharen, merch Grono ap Rhisiart a gweddw William ap dol Llwyd o Lanfair-tal-haearn. Ni aned iddynt blant.

Yn 1578 dyrchafwyd Morgan i fywoliaeth Llanrhaeadr-ym-Mochnant, plwyf gwledig yn caniatau digon o amser i waith llenyddol. Diau i'r Esgob Hughes ei symud o'r dref i'r wlad er rhoddi pob chwareu teg iddo i gyfieithu'r Beibl. Ni awdurdodwyd Morgan i wneyd hyn gan y pedwar Esgob fel y gwnaed i Salesbury, ond mae'n sicr iddo dderbyn cefnogaeth Esgob Hughes, Llanelwy, ac Esgob Bellott, Bangor. Y flwyddyn yr aeth i Lanrhaeadr gwnaed ef yn Bregethwr y Brifysgol, a phrawf hyn ucheled syniad ei Brifysgol am dano. Treuliai bron ei holl amser yn ei fyfyrgell i gyfieithu'r Hen Destament, ac yr oedd ei wybodaeth gywir o'r Hebraeg yn ei alluogi i wneyd cynnydd cyflym gyda'r gwaith. Nid oedd wedi bod yn hir yn Llanrhaeadr pan y gwnaed ymgais i ddifwyno ei gymeriad, a gwnaeth rhai o'r plwyfolion apel am ei symud oddiyno. Yr oedd yn y plwyf deulu cryf o gydymdeimlad Pabyddol, ac o ganlynniad yn wrthwynebol i waith eu ficer. Gwnaethant gŵynion yn ei erbyn fel offeiriad, a gorfu i Morgan ymddangos o flaen Archesgob Caergaint, sef Whitgift, ei hen athro yng Nghaergrawnt. Ni chymrodd fawr amser i Whitgift i weld fod y cyhuddiad yn gwbl ddisail, ac mai ei armerth clodwiw i gyfieithu'r Beibl yn unig gyfrifai am gyhuddiad salw ei blwyfolion Pabyddol.

Yr oedd Morgan, y pryd hwn, wedi gorffen cyfieithu Pum Llyfr Moses, a diau iddo ddangos ei waith i Whitgift fel prawf o'i ddiwydrwydd yn Llanrhaeadr. Yr oedd Whitgift hefyd yn gwbl wybyddus o angen Cymru am Feibl gan ei fod, cyn ei bennodiad yn Archesgob, yn dal perthynas agos â Chymru. Rhoddodd bob cefnogaeth i'w hen ddisgybl: addawodd gynorthwy arianol iddo i'w gyhoeddi, a rhoddodd wahoddiad iddo i aros ym Mhalasdy Lambeth pan yn dwyn y gwaith drwy'r wasg.

Yn ei lythyr at y Frenhines dywed Morgan fel hyn am Whitgift:—"Ac wedi yn brin ei ddechreu (y cyfiethad), buaswn wedi diffygio gan anhawsder y gorchwyl a maintioli'r gost, ac ni ddygaswn ond Pum Llyfr Moses yn unig i'r wasg, oni buasai imi gael fy nghymell i fynd mlaen, a fy nghynnorthwyo gan haelioni, awdurdod, a chyngor y Parchedicaf Dad yng Nghrist, Archesgob Caergaint, noddwr llenyddiaeth, amddiffynnwr y gwirionedd, a gwyliwr gofalus dros weddeidd-dra a threfn; yr hwn o dan eich Mawrhydi, a lywyddodd y Cymry gyda'r doethineb a'r iawnder mwyaf, gan ystyried ufuddodd a deall ein cydwladwyr a edrychodd yn garredig arnynt fel y maent hwythau bob amser yn ei glodfori yntau."

"Yn y dyfynniad uchod," medd Mr. Beriah Evans, "gwelwn Whitgift—llofrudd John Penry—yn ei fan goreu, a'r Dr. Morgan hyglod yn ei fan gwannaf."

Tra yn Llunden, yn ateb y cyhuddiad, daeth Morgan i gyffyrddiad â Dr. Gabriel Goodman, Deon Westminster, Cymro twymgalon o Ruthin, a derbyniodd bob cefnogaeth ganddo.

Aeth Morgan 'nol i Lanrhaeadr a'i gymeriad uwchlaw pob amheuaeth, a mwy o awydd nag o'r blaen i ddwyn ei waith i derfyn. Yn ddifeddwl iddynt hwy, gwnaeth ei elynion gymwynas werthfawr drwy ei ddwyn i Lunden.

Erbyn 1587 gorffenodd gyfieithu'r oll o'r Hen Destament. Nid oedd angen cyfieithu'r Testament Newydd gan fod Salesbury wedi gwneyd hynny, ond adolygodd y cyfieithad hwnw; cabolodd ei iaith a cheisiodd symud ei holl anmherffeithion. Ond y mae olion Salesbury yn bur amlwg ynddo wedi'r cyfan, ac nid yw ei Gymraeg ystwythed ag eiddo'r Hen Destament.

Yn 1587 aeth Morgan i Lunden er dwyn y gwaith drwy'r wasg. Saeson oedd yr argraffwyr, ac yr oedd ei bresenoldeb yn anhebgorol er sicrhau perffeithrwydd yr argraffiad. Tra yn Llunden lletyai gyda'r Dr. Goodman. Methodd fanteisio ar wahoddiad yr Archesgob i aros yn Lambeth oherwydd fod Afon Dafwys yn gwneyd teithio i'r argraffdy yn anodd.

Yn 1588—blwyddyn i'w chofio yn hanes Cymru a Chymraeg—gwelodd y Beibl oleu dydd mewn diwyg Gymreig. Cyhoeddwyd wyth can copi, — un ar gyfer pob eglwys a chapel yng Nghymru. Cyflwynodd Morgan gopi yn anreg i Ddeon Westminster, a chedwir ef fyth yn ofalus yn y llyfrfa.

Ar wyneb-ddalen y Beibl ceir y teitl canlynol:—"Y Beibl Cyssegrlan. Sef yr Hen Destament a'r Newydd." Ceir hefyd ddwy adnod, sef 2 Tim. 3 : 14, 15, ac ar waelod y ddalen dywedir i'r Beibl gael ei argraffu gan Ddirprwywyr Christopher Barker, Argraffydd ei Mawrhydi y Frenhines, yn 1588. Cyflwynodd y Beibl i'r Frenhines, a sgrifennodd Morgan lythyr cyflwyniad Lladin galluog, ond yn gorfoli Elizabeth yn ormodol.

Nid anyddorol fydd ychydig sylwadau ar gyfieithad Morgan. Dengys y difyniadau canlynol y gwahaniaeth mawr rhwng iaith Salesbury ac iaith Morgan:—"Dew yr hwn a wnaeth y byd a'r oll pethae ys ydd ynthaw, can y vot ef yn Arglwydd nef a' daear, ny thric ef mewn templae gwneythuredic-a-dwylaw, ac nid addolir a dwylaw dynion, val pe bei arno eisiae dim, ac Ef E yn rhoddi i bawp vywyt ac anhenetl a' phop peth," geir gan Salesbury, ond ar ol ei gaboli gan Morgan darllena fel

hyn :—"Duw yr hwn a wnaeth y byd a'r hyn sydd ynddo oll, Efe yn Arglwydd nef a daiar nid yw yn aros mewn temlau o waith dwylo.

"Ac ni wasanaethir ef a dwylo dynió fel pe bai arno eisieu dim, gan ei fod Efe yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll."

Yr oedd Morgan yn ieithwr penigamp. Dywedir i Whitgift, gan gofio ei wybodaeth o'r ieithoedd clasurol yng Nghaergrawnt, ofyn iddo a oedd mor hyddysg yn y Gymraeg. I hyn atebodd yntau, "Gobeithiaf, f' Arglwydd Archesgob, y canniatewch i mi sicrhau eich Grasusaf y gwn iaith fy mam yn well nag unrhyw iaith arall."

Cyfrifir ei gyfieithad gan Gymry ŵyr Hebraeg yn dda — yn waith gorchestol iawn. Dywedant ei fod lawer iawn cywirach na'r Cyfieithad Awdurdodedig Seisnig. Gall pawb ŵyr Saesneg weld hyn wrth ei gymharu â'r Cyfieithad Diwygiedig Seisnig. Mae mwyafrif y gwelliantau geir yn hwnw i'w cael ym Meibl Morgan, ac yn wir ceir ynddo lawer o'r gwelliantau geir yn Nhestament Diwygiedig America. Pan ddiwygiwyd y Beibl Seisnig yr oedd Dr. Thirlwall, Esgob Ty Ddewi, yn aelod o'r Pwyllgor, a dywedir na roddai byth ei farn ar unrhyw gwestiwn dyrus heb yn gyntaf ddarllen Beibl Morgan. Drwy wneyd hyn talai deyrnged uchel i gywirdeb gwybodaeth y Cymro, nid yn unig o'r Hebraeg a'r Roeg, ond hefyd o'r Gymraeg. Rhaid fod ganddo wybodaeth feistrolgar o'r tair iaith cyn y llwyddasai i gyfieithu mor gywir.

Y mae orgraff "Y Beibl Cyssegrlan" yn debyg i'n horgraff bresenol. Dyma rai o'r gwahaniaethau mwyaf amlwg geir ynddo :—

1. Defnyddia Morgan fwy o ffurfiau llafar nag a wneir yn awr. Sgrifenna *gwele* am *gwelai; cyfell* am *cyfaill; yntef* am *yntau; boreu* am *bore;* ac *iniawn* am *uniawn.*

2. Y mae yn lled ansicr ynghylch *u* ac *y* yn y sill olaf : e.g., *sulw* yn lle *sylw.*

3. Sgrifenna *yng-Hrist* yn lle *yng Nghrist; yng-wlad* yn lle *yng ngwlad; ym-hob* yn lle *ym mhob.*

4. Dilyna Salesbury drwy ddefnyddio *ei* yn lle *i*, a thrwy sgrifennu *desgyn* yn lle *disgyn*, a *desgrifio* yn lle *disgrifio.*

Ond nid yw rheina ond brychau bychain. Ar y cyfan y mae Cymraeg "y Beibl Cyssegrlan" yn bur a chain, a phriodol iawn y canodd Sion Tudur :—

"Gosodaist, neidiaist yn ol,
Gymraeg rwydd, Gymro gwrol.
Yn cadw riwliad gramadeg
A pherffaith frydaniaith deg,
Iaith rwydd gan athraw iddyn',
A phawb a'i dallt, a phob dyn."

Dylid cofio mai ar gyfer yr eglwysi yn unig yr argraffwyd y Beibl, ac yno wrth gadwyn y'i cedwid. Ond gorchmynai deddf 1563 iddo gael ei osod mewn man cyfleus "er budd a defnydd pob un fydd a meddwl ganddo i fynd i'r eglwysi" i'w ddarllen.

Yr ydym wedi cyfeirio eisoes at wrthwynebiad Lloegr i gyfieithad y Beibl, ac nid oedd pob Cymro yn ffafriol chwaith. Cyfeiria Morus Kyffin at wrthwynebiad rhai clerigwyr, a dywed yr Archddiacon Prys fod bonedd y wlad yn wrth-Gymreig iawn eu hyspryd. Defnyddid yr un rhesymau dros adael i'r Gymraeg farw yn yr unfed ganrif ar bymtheg ag a wneir 'nawr.

Dyddorol iawn yw disgrifiad byw Morus Kyffin o gyflwr Cymru ar y pryd : — "Dr. William Morgan a gyfieithodd y Beibl trwyddo yn hwyr o amser ; gwaith angenrheidiol, gorchestol, duwiol, dyscedig ; am yr hwn ni ddichon Cymry fyth dalu a diolch iddo gymaint ag a haeddodd ef. Cyn hynny hawdd yw gweled may digon llesg oed gyflwr yr iaith Gymraeg, pryd na cheid clywed fynnychaf, ond y naill ai cerdd faswedd, ai ynte rhyw fath arall ar wawd ofer heb na dysc, na dawn, na deunydd ynddi. O damweinie i ryw brydydd, ryw amser, geisio bras-nyddu ychydig

dduwioldeb ar gerdd, ef a balle mewn llawer pwnc eisieu dysc, a gwybodaeth ; gan hynodi i'r bobl ryw hen chwedl, neu goel gwrach ar gwir y barth ; a hynny wedi ei dynny allan (y rhan fwyaf) o lyfr y Myneich Celwyddog, yr hwn a elwid *Legenda Aurea*, ag a elllr ei alw *Traethawd y Celwyddeu.* Y mae'n fy meddiant i beth o'r fath gerdd Gymraec i'w dangos, ag y mae yn dostur iawn gan fy nghalon i feddwl ddarfod twyllo ag anrheithio llawer enaid dyn drwy y fath erchyll ynfydrwydd. . . . Ond gan fod llyfr gair Duw wedi ei gymreigu a'i brintio, nid gwiw i neb o blant diawl bellach geisio tywyllu goleuni Cymry, gwnelont eu gwaethaf. . . . A chyda hyn, pettid yn pregethu Efengyl Crist yng-Hymry fal y gwelsoch chwi a minne mewn gwledydd eraill, diau nad oes Genedlaeth yng-Hred a alle ragori ar y Cymry mewn Crefydd a Duwioldeb ; gan eu bod nhwy o athrylith a naturiaeth yn chwannog i ddyscu pob Rhinwedd a Dayoni, ond cael ei ddangos a'i ddeongl iddynt."

Os yw cenedl y Cymry heddyw yn "rhagori mewn Crefydd a Duwioldeb," fel yr honna llawer, y mae llawer o'r clod yn ddyledus i William Morgan lafuriodd mor galed yn nhawelwch Maldwyn er mwyn rhoddi "llusern i'w thraed a llewyrch i'w llwybrau."

Yn 1595 pennodwyd Morgan yn Esgob Llandaf, fel cydnabyddiaeth o'i lafur i'w wlad. Bu yno am chwe mlynedd, ond mae Hanes yn ddistaw ynghylch ei waith. Yn y cyfnod hwn y bu Whitgift yn erlid y Piwritaniaid, ac yr oedd cydymdeimlad Morgan gyda'r Archesgob. Yn 1601 symudodd i Lanelwy, yn ganlynydd i'r Esgob Hughes, ac yno y bu hyd ei farw Medi 10fed, 1604. Claddwyd ef y dydd canlynol yn yr Eglwys Gadeiriol, ond ni wyddis i sicrwydd "man fechan ei fedd," ond diau iddo gael ei gladdu o flaen yr allor, yn ol arfer y cyfnod. Yn 1888 codwyd Cofgolofn Genedlaethol yn Llanelwy i Morgan a Salesbury a'r rhai fu'n eu cynorthwyo gyda'u gwaith.

[Cyhoeddir Hanes Bywyd ac Amserau'r Esgob Morgan o waith y Parch. W. Hughes gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristnogol, ac iddo rwyf yn ddyledus am lawer iawn o ffeithiau.]

E.W.G.

PRIODASAU.

MEHEFIN 28, yn nghapel Soar, Llanbedr, gan y Parch. R. C. Jones, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Evan Evans, unwyd mewn glân briodas y Parch. John Carrara Davies, Cefncoedycymer, a Miss Mary Jane Hughes, White Hall, Llanbedr.

GORPHENAF 20, yn nghapel Brondeifi, gan y Parch. R. C. Jones, unwyd Mr. Lewis Terwyn Davies, Glenover, mewn priodas a Miss Annie Mary Jones, 11, Station Terrace, Llanbedr.

GORPHENAF 29, yn Highland Place, Aberdar, y Parch. R. Jenkin Jones yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. J. Glynne Davies, Hen Dy Cwrdd, Mr. James Ernest Phelps, M.E., Cwmaman, a Miss Edith Constance Evans, ail ferch y Parch. Melchisedec Evans.

God bless these hands united,
  God bless these hearts made one,
Unsevered and unblighted
  May they, through life, go on ;
Here, in earth's home, preparing
  For brighter scenes above ;
And there for ever sharing
  Thy home of perfect love.

MARWOFION.

EBRILL 2, yn 38 mlwydd oed, Mrs. Mary Ann Pike, o Crewkerne, Gwlad yr Haf. Merch ydoedd i Mr. Thomas Davies, Maengerffwr, Hendrefawr, Llangeitho, gynt o Llanybyther. Ni fu cystudd yr ymadawedig ond am ychydig ddyddiau. Yr oedd wedi etifeddu rhai o ddoniau ei thad, ac, fel efe, yr oedd yn hoff iawn o ganu. Yr oedd yn aelod ffyddlon o eglwys Dduw, ac yn selog iawn gyda'r Ysgol Sul a chyda cerddoriaeth. Claddwyd hi yn nghladdfa gyhoeddus tref Crewkerne. Gadawodd briod a phedwar o blant, ynghyd a thad a thair chwaer a dau frawd mewn galar mawr ar ei hol.

MAI 2, bu farw Richard Jenkins, Mount Pleasant, ger Cribyn, yn 65 oed, ar ol amryw fisoedd o gystudd caled. Gadawodd briod a phedwar o blant mewn galar ar ei ol. Dydd Sadwrn canlynol hebryngwyd ei weddillion i fynwent Ystrad. Pregethwyd yn y ty cyn cychwyn gan y Parch. D. Evans, ac yn yr Eglwys gan y Ficer.

MAI 5, yn 17 oed, bu farw Anne Davies, Ysgoldy, Cribyn, o'r darfodedigaeth. Gallem feddwl, ychydig amser yn ol, y byddai'r ferch ieuanc hon gyda'r olaf i syrthio yn aberth i'r gelyn marwol hwn, gan mor iach a bywiog yr ymddangosai. Plentyn yr Ysgol Sul, y Dosbarth Beiblaidd a'r addoliad oedd Annie, a hoff iawn oedd o bob un o honynt; ac ni fu ei chysylltiad â'r sefydliadau hyn yn ddiamcan. Merch ydoedd i John Hughes, Dihewid. Collodd ei mam yn ei babandod, a mabwysiadwyd hi gan y diweddar Evan Davies, Felin Lîf, Cribyn, a Martha Davies, ei wraig. Gan yr olaf cafodd bob gofal a thynerwch yn ei chystudd. Gadawodd hefyd bedwar brawd mewn galar ar ei hol. Pregethwyd ddydd ei hangladd gan y Parch. D. Evans, a gweinyddwyd ar lan y bedd gan y Parch. L. Williams. Claddwyd yn mynwent Cribyn yn ymyl ei mam.

MAI 5, yn 69 oed, Anne Evans, priod y diweddar Evan Evans, Maesmynach, ger Cribyn. Dioddefodd amryw fisoedd o waeledd, ond hyd y diwedd bron mynwesid gobaith am ei hadferiad. Gadawodd saith o blant mewn galar ar ei hol, yr oll o'r rhai, oddigerth un mab a dwy ferch, ydynt wedi ymsefydlu mewn bywyd. Menyw dawel, gartrefol ydoedd, ac a hoffid yn fawr gan yr ychydig ddelent i gyffyrddiad agos â hi. Y dydd Iau canlynol hebryngwyd yr hyn oedd farwol o honi i gladdfa Capelygroes gan dyrfa luosog iawn. Pregethwyd yn y ty cyn cychwyn gan y Parch. D. Evans, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. L. Williams a J. Davies.

MEHEFIN 27, yn 33 mlwydd oed, Elizabeth, gwraig Mr. Thomas Rees, Cigydd, Heolygraig, Alltwen, Pontardawe, a merch Mr. a Mrs. Richard Morgan, Heol Herber, Pontardawe. Daeth y newydd am farwolaeth sydyn ein chwaer megis ymyl gwisg ystorm i'n clustiau—do, a gwlychwyd gruddiau lawer. Y ddoe, yn y faelfa, fel arfer, yn hoew, iach a llawen; heddyw, yn rhodfa y tawelwch euraidd. Gedy gydmar a baban ar ei hol, i wynebu a brwydro yn y bywyd hwn, ac i alaru yn yr anial unig. Y Sadwrn dilynol, hebryngwyd ei theml o bridd i Gellionen. Pregethodd y Parch. H. Seiriol Williams, Tabernacl, Pontardawe; diweddwyd gwasanaeth y capel gan y Parch. David Jenkins, Rhos, Pontardawe, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. D. Gower Richards, Gosen, Trebanos.

GORPHENAF 2, yn 25 mlwydd oed, Elizabeth Jones, Rose Hill, ger Pantdefaid, gan adael mam, mab a brawd, heblaw perthynasau eraill, mewn galar ar ei hol. Claddwyd y dydd Mercher dilynol yn Pantdefaid, y gweinidog yn gwasanaethu.

GORPHENAF 5, yn 64 mlwydd oed, Mr. David Davies, Post Office,

Felinfach. Yr oedd yr ymadawedig wedi dechreu gwaelu er's blwyddyn, a gwanychu wnaeth hyd nes y daeth ei ddiwedd. Yr oedd o yspryd bywiog ac o duedd lafurus. Gwnaeth ei oreu i wella ei amgylchiadau bydol. Dechreuodd ei fywyd yn saer maen, wedi hyny daeth yn faen gerfiwr. Daliai hefyd y swydd o Feistr-llythyrdy yn Felinfach. Nid oedd wedi cael manteision addysgol da yn moreu ei oes, ond yr oedd wedi gwneud ymdrech dda i ddiwyllio ei hunan, a meddai wybodaeth helaeth mewn amryw o gyfeiriadau. Yr oedd yn ddarllenwr cyson o'r cyhoeddiadau dyddiol ac wythnosol, a chymerai ddyddordeb arbenig yn mhynciau y dydd. Yr oedd yn Rhyddfrydwr selog a goleuedig, ac nid oedd arno ofn datgan ei farn ar faterion. Yr oedd yn ddiacon yn eglwys Rhydygwin, ac yn ffyddlon neillduol gyda'r gwasanaeth crefyddol a'r Ysgol Sul. Yr oedd yn athraw yn yr Ysgol Sul, ac yr oedd yn alluog ac yn llwyddianus iawn gyda'r gwaith hwn. Yr oedd yn ddysgyblwr da, yn hyddysg iawn yn y Beibl, ac yn feddianol ar y gallu i gyfranu addysg. Mae llawer cenedlaeth o blant, rhai o'r cyfryw yn aros yn Rhydygwin, ac eraill wedi ymadael, wedi derbyn addysg dda ac anogaethau da ganddo, ac anwyl a pharchus ydyw'r cof sydd ganddynt am dano heddyw. Dangosodd aelodau'r Ysgol Sul eu gwerthfawrogiad o'i wasanaeth drwy roddi plethdorch werthfawr mewn gwydr ar ei fedd. Yr oedd amryw eraill o blethdorchau wedi eu danfon, ac yn eu plith un oddiwrth Feistri-llythyrdai a Llythyr-gludwyr yr ardal. Yr oedd yn ddosparthwr YR YMOFYNYDD hefyd er's amryw flynyddau. Cyfranai yn dda i drysorfeydd yr eglwys, ac nid oedd dim byd yn cael ei ddwyn yn mlaen yn yr eglwys nad oedd Mr. Davies yn barod bob amser i wneud ei oreu drosto. Bydd colled fawr yn cael ei deimlo ar ei ol yn yr eglwys. Hyderwn y bydd i'r esiampl dda osododd gael dylanwad ar rywrai, ac y daw rhywrai eto i lanw ei le, ac i gario'r gwaith da yn mlaen. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn mynwent Rhydygwin. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Evans, Cribyn; J. Islan Jones, B.A., Bolton; B. Carolan Davies (A.), Tynygwndwn, a D. R. Davies, Ficer Ystrad. Traddodwyd y bregeth angladdol yn nghapel Rhydygwin y Sul canlynol. Gadawodd briod, pump mab a dwy ferch, ac hefyd frawd a chwaer, a pherthynasau eraill ar ei ol. Nodded y Nefoedd a fyddo drostynt yn eu profedigaeth lem.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Wele y casgliadau dderbyniwyd eleni: Trebanos, 18s.; Capelybryn, 12s. 6c.; Rhydygwin, 11s. 6c.; Llwynrhydowen, 7s.6c.; Caeronen, 6s.; Capelyfadfa, 6s.; Alltyplacca, 5s.; Hen Dy Cwrdd, Aberdar, 5s.; Ciliau, 2s.6c. Gwelir fod rhai ysgolion heb wneud sylw o'n apel am gynorthwy arianol.—*L. W.* (*Ysg.*)

CAPELYGROES.—Gadawyd allan o restr yr ymgeiswyr llwyddianus yn yr arholiad diweddar yr enwau canlynol:—Y Safon Gyntaf, Dosbarth Cyntaf:—David James Evans. Yr Ail Safon, Dosbarth Cyntaf:—Evan Morgan, John Morgan, Margaret Jones, Lizzie Evans.

CRIBYN. — Cynhaliwyd cymanfa ysgolion yn y lle hwn dydd Gwener y 19eg o Fai. Daeth yr ysgolion canlynol yn nghyd :—Ciliau, Rhydygwin, Cribyn, Capelybryn, a Sychbant. Adroddasant ranau o'r Ysgrythyr yn y dull arferol, a holwyd hwynt arnynt gan y gweinidogion lleol. O ran nifer ymddangosai pob un o'r ysgolion yn debyg i'r hyn arferent fod ; ond mewn ateb yr oedd gwelliant yn amlwg—yn mhob un o'r ysgolion. Arwydd da, calonogol iawn, yw gweled arwyddion o ofal mwy gyda'r plant. Yr oedd y ganiadaeth hefyd yn effeithiol iawn. Cyfeiliwyd drwy y dydd gan Miss Jones, Tanlan, a Mrs. Jones, Brighton Cottage.

ABERDAR. — Cynaliwyd cyfarfod yn ysgoldy Highland place nos Iau, yr 28ain, i ffarwelio a'r Parch. M. Evans a'i deulu, ac i ddymuno Duw yn rhwydd iddo yn ei gylch newydd fel gweinidog Lydgate yn swydd York, lle y bydd yn dechreu'r Sul cyntaf yn Awst. Cyflwynwyd nifer o lyfrau i Mr. Evans a'r plant, yn goffa am bum' mlynedd eu harosiad yn Aberdar. Fe welir eisiau Mr. Evans yn Aberdar ac yn y cylchoedd Undodaidd yn Nghymru, ac fe wel yntau eisiau rhywbeth tebyg i'n cyfarfodydd chwarterol pan aiff i Loegr, lle nad oes dim o'r fath beth. Priododd ei ail ferch dydd Sadwrn, a dydd Sul yr oedd yn gorphen ei wasanaeth yn Highland Place. Dymunwn iddo ef a'i deulu serchog bob daioni.

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.—Cyfarfu pwyllgor yr uchod yn Nghwrtnewydd dydd Sul y 30ain o Orphenaf, pryd y daeth yn nghyd gynrychiolaeth dda o'r holl eglwysi. Cynhelir y gymanfa nesaf yn Llanybyther, gyda Mr. J. R. Thomas, Pontsian, yn arweinydd. Gwnaed Mr. T. J. Thomas, o Bwlchyfadfa, yn ysgrifenydd, a Mr. Lewis Timothy Thomas, Pantdefaid, yn drysorydd. Efallai y cawn adroddiad llawn o weithrediadau y pwyllgor yn ein Rhifyn nesaf.

GWILYM MARLES. — Ymwelodd Mr. O. M. Edwards, prif arolygwr yr ysgolion dros Gymru, a Llandyssul yn ddiweddar, ac amlygodd ei syndod a'i siom am na wyddai llawer o blant Llandyssul ddim am Gwilym Marles a'i weithiau. Y mae yn amlwg y disgwylir bellach ar blant yr ysgolion i wybod rhywbeth am enwogion lleol ydynt yn eu dydd wedi bod yn help i yru yr hen wlad yn ei blaen.

Pan y teimlwy'th bresenoldeb
Ac y gwelwy'th ddisglaer wedd,
Pob rhyw derfysg ynwyf dderfydd,
Rhed trwy f' yspryd hyfryd hedd,
Nes bo pob meddyliau bydol
Ynwyf wedi marw'n lân,
A theganau gwycha'r ddaeren
Yn diflanu'n niwl o'm blaen,
Ac y llynco anfeidroldeb
Fy synwyrau oll i gyd
Ac Un gwrthrych mawr anfeidrol
Daro drwyddwyf barchus gryd.

—*Davis, Castell Hywel.*

Trysorfa Addysgol Gweinidogion Undodaidd Cymreig

RHODDION YCHWANEGOL.

	£	s.	c.
Mrs. Davies, The Alma, Llandyssul ...	0	5	0
Mr. Edward Thomas, Blaenmene, eto ...	0	2	0
Mrs. Davis, Llwyndewi, Cellan	0	2	6

Anfoner pob tanysgrifiadau i'r Trysorydd—MRS. EVANS, Taliesin House Lampeter ; neu i'r Ysgrifenydd, y PARCH. R. C. JONES, Ogmore House, Lampeter.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1857.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Woodms, R. M. Montgomery, Esq.

STANDARD FLOUR.

(Containing 80 per cent. of the whole wheat.)

T. E. JONES & Co. beg to announce that they are Millers of Standard Flour which contains 80 per cent. of the whole Wheat, including the Germ and Semolina. This Flour is a pure unadulterated Wheat Flour containing all the nutritive properties, and has passed the test of the "Daily Mail" Specialist. Also Manufacturers of Pure Welsh Oatmeal.

Prices on application—Wholesale and Retail.

T. E. JONES & Co., The Stores, Llandyssul, Ffrwdwen Mills, Ponttwelly, & Rhydowen Mills

TELEGRAMS—JONES CO., LLANDYSSUL.

HOUSE LINENS.

Table and Bed Linen and Household Drapery of every description.

From the beautiful double damask Real Irish Linen Table Cloth to the Low Priced yet eminently servicable cotton duster, we supply everything that the Housewife should have in her linen cupboard, at Prices which are the Lowest — Anywhere, for equal qualities.

House Linens marked in ink Free of Charge.

BEN. EVANS & CO.,

General Drapers, &c. SWANSEA. LTD.